# Agenda

## Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Chwefror 2021

Amser: Time Not Specified

Lleoliad:

At: Cynghorwyr:

| Eitem | | Wardiau Dan Sylw |
|---|---|---|
| 1 | Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor- 2021/3: Debenhams yn Friar's Walk | |

**Gofynnodd y Cynghorydd Fouweather:**
A all yr Arweinydd ddweud wrthyf a yw hi neu unrhyw aelod o'r cabinet neu unrhyw swyddog wedi bod mewn trafodaethau gydag unrhyw siop gadwyn o bwys ar y stryd fawr gyda golwg ar gymryd drosodd siop Debenhams yn Friar’s Walk a fydd yn wag cyn bo hir.

**Ymatebodd Arweinydd y Cyngor:**
Mae Friar's Walk mewn dwylo preifat ac er ein bod yn ceisio cefnogi pob un o'n busnesau yng Nghanol y Ddinas mewn partneriaeth â Casnewydd Nawr, nid ydym wedi cymryd rhan uniongyrchol mewn unrhyw drafodaethau ar osodiadau posibl yn y datblygiad hwn. Fodd bynnag, mae llwyddiant Canol y Ddinas yn y dyfodol yn llawer mwy nag un adeilad neu weithredwr unigol.

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r holl randdeiliaid yng nghanol y ddinas, gan gynnwys
Ardal Gwella Busnes Casnewydd Nawr, gan edrych ar gyfleoedd i wneud Canol y Ddinas yn lle bywiog a hyfyw i bobl fyw, ymweld ag ef a gweithio ynddo.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda dinasoedd eraill yn Ne Cymru sydd mewn sefyllfa debyg i Gasnewydd. Rydw i, ochr yn ochr ag Arweinwyr Cynghorau Dinas Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe, wedi anfon llythyr ar y cyd yn ddiweddar at Lywodraeth Cymru yn gofyn am drafodaeth frys i alluogi’r gwaith o sicrhau cefnogaeth a buddsoddiad pellach i'n dinasoedd allweddol yng Nghymru.

Person cyswllt: ,
Ffôn:
E-bost:Cabinet@newport.gov.uk
Dyddiad cyhoeddi: Date Not Specified